

Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd

Dyddiad:

Dydd Iau, 16 Hydref 2014

Amser:

09.00

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Bethan Davies

Clerc y Pwyllgor

029 2089 8120

PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk

Agenda

- 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon (09:00)**
- 2 Papurau i'w nodi (09:00–09:05)** (Tudalennau 1 – 55)
- 3 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2015–16: Sesiwn dystiolaeth 3 (09:05–10:30)** (Tudalennau 56 – 86)
FIN(4)–18–14 Papur 1
Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cynghorydd Ellen ap Gwynn – Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion

Chris Lee – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Dave Street – Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasnaethau Cymdeithasol, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

(Egwyl 10:30 – 10:45)

4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2015–16: Sesiwn dystiolaeth 4 (10:45–11:45) (Tudalennau 87 – 108)

FIN(4)–18–14 Papur 2

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

Gareth Coles – Swyddog Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

John Watkin – Prif Weithredwr, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych

Ele Hicks – Swyddog Polisi a Chyllid, Diverse Cymru

5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2015–16: Sesiwn dystiolaeth 5 (11:45–12:15) (Tudalennau 109 – 114)

FIN(4)–18–14 Papur 3

Auriol Miller – Cyfarwyddwr, Cymorth Cymru

Sam Austin – Cyfarwyddwr Gweithredol, Llamau

Simon Hatch – Cyfarwyddwr, Carers Trust Cymru

Kieron Rees – Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, Carers Trust Cymru

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

Eitem 7

7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2015–16: Trafod y dystiolaeth a gafwyd (12:15–13:00)

Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd**

Dyddiad: **Dydd Iau, 2 Hydref 2014**

Amser: **08.30 – 12.44**

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

<http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/1c459908-dc3d-4f34-a126-3ae2d0e685dd?autostart=True>

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

Jocelyn Davies AC (Cadeirydd)
Peter Black AC
Christine Chapman AC
Mike Hedges AC
Alun Ffred Jones AC
Ann Jones AC
Julie Morgan AC
Nick Ramsay AC

Tystion:

Y Fonesig Rosemary Butler AC, Llywydd
Claire Clancy, Y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Nicola Callow, Comisiwn y Cynulliad
Jane Hutt AC, Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Jo Salway, Llywodraeth Cymru
Matt Denham Jones, Llywodraeth Cymru
Jeff Andrews, Cyngorydd Polisi Arbenigol, Llywodraeth
Cymru

Staff y Pwyllgor:

Bethan Davies (Clerc)
Meriel Singleton (Ail Clerc)
Tanwen Summers (Dirprwy Clerc)

1 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015–16: Adroddiad rhaggyllidebol gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)

1.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio gan Don Peebles, Cynghorwr Arbenigol.

TRAWSGRIFIAD

Gweld [trawsgrifad o'r cyfarfod](#).

2 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

2.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

3 Papurau i'w nodi

3.1 Nodwyd y papurau.

3.1 Cyllideb Atodol 2014–2015: Ymateb Llywodraeth Cymru

4 Cyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2015–16

4.1 Roedd Peter Black AC yn absennol ar gyfer yr eitem hon ac eitem 8 gan ei fod yn aelod o Gomisiwn y Cynulliad.

4.2 Bu'r Aelodau yn craffu ar gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2015–16 gyda'r Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd a Chadeirydd y Comisiwn, Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad a Nicola Callow, Pennaeth Cyllid.

4.3 Cytunodd y Llywydd i godi'r mater ynghylch tywyswyr yn casglu nodiadau Aelodau o'r Siambr i helpu gyda Chofnod y Trafodion yn y cyfarfod nesaf. Hefyd, ymrwymodd i ymchwilio i'r posibiladau o ran opsiynau teithio amgen ar gyfer ymweliadau addysgol gan ysgolion.

4.4 Cytunodd Claire Clancy i edrych ar y materion hawlfraint sy'n ymwneud â'r adroddiad Ymddiriedolaeth Garbon a sicrhau ei fod ar gael i'r Aelodau os yn bosibl ac i ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor ynghylch pwy sy'n berchen Tŷ Hywel.

5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015–16: Sesiwn dystiolaeth 1

5.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar waith y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015–16.

5.2 Nododd y Cadeirydd y byddai'n gofyn i'r pwyllgor perthnasol i archwilio gyda'r Gweinidog portffolio os bydd y toriadau i'r rhaglen Cefnogi Pobl yn cael eu cyflwyno yn gyfartal ar draws Cymru, neu a fydd rhai ardaloedd cael toriadau mwy.

5.3 Cytunodd y Gweinidog i:

- ddarparu nodyn i'r Pwyllgor yn egluro'r sefyllfa o ran ardrethi annomestig ar yr amod nad yw'n taseilio trafodaethau gyda Llywodraeth y DU;
- rhannu â'r Pwyllgor rhywfaint o'r cyngor cynnar y mae'r Llywodraeth wedi ei gael ar y broses o ddatganoli treth dir y dreth stamp;
- cadarnhau'r trefniadau ar gyfer dyrannu arian i Awdurdodau Lleol yn benodol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol;
- darparu ragor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y posibilrwydd o gael porth sgiliau i oedolion mewn perthynas â gwasanaeth Gyrfa Cymru;
- gwirio cyhoeddi gwerthusiad ar y Grant Amddifadedd Disgyblion a rhoi manylion i'r Pwyllgor; a
- rhoi manylion i'r Pwyllgor am gyllid buddsoddi-i-arbed.

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015–16: Trafod y dystiolaeth a gafwyd

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd.

7.1 Ymatebion i'r Ymgynghoriad – Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015–16

8 Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2015–16: Trafod y dystiolaeth a gafwyd

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a nodi y bydd adroddiad drafft yn cael ei baratoi i'w drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor a drefnwyd ar gyfer 8 Hydref 2014.

9 Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru): Gohebiaeth y Pwyllgor

9.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod yr ohebiaeth.

Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd**

Dyddiad: **Dydd Mercher, 8 Hydref 2014**

Amser: **09.04 – 11.48**

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

<http://www.senedd.tv/Meeting/Archive/a3a67295-072c-4b0e-81a9-7006bfd40e18?autostart=True>

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

Jocelyn Davies AC (Cadeirydd)
Peter Black AC
Christine Chapman AC
Mike Hedges AC
Alun Ffred Jones AC
Ann Jones AC
Julie Morgan AC
Nick Ramsay AC

Tystion:

Helen Birthwhistle, Cyfarwyddwr, Confederasiwn GIG Cymru
Adam Cairns, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Paul Roberts, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Staff y Pwyllgor:

Bethan Davies (Clerc)
Tanwen Summers (Dirprwy Clerc)
Don Peebles (Cynghorwr Arbenigol)
Martin Jennings (Ymchwilydd)

TRAWSGRIFIAD

Gweld [trawsgrifiad o'r cyfarfod.](#)

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 The Chair welcomed the Members to Committee.

1.2 There were no apologies.

2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015–16: Sesiwn dystiolaeth 2

2.1 The Committee took evidence from Helen Birtwhistle, Welsh NHS Confederation, Adam Cairns, Cardiff and Vale University Health Board and Paul Roberts, Abertawe Bro Morgannwg University Health Board on the Welsh Government's draft budget for 2015–16.

2.2 Helen Birtwhistle agreed to provide a note to the Committee on the effect of litigation on the risk pool.

3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

3.1 The motion was agreed.

4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015–16: Trafod y dystiolaeth a gafwyd

4.1 The Committee considered the evidence received.

5 Trafod yr adroddiad drafft ar gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2015–16

5.1 Peter Black AM absented himself for this item due to his role as a member of the Assembly Commission.

5.2 The Committee considered and agreed the draft report.



Jocelyn Davies AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

8 Hydref 2014

Annwyl Jocelyn

Cyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2015-16

Yn dilyn ein hymddangosiad yn y Pwyllgor Cyllid ar 2 Hydref 2014, rwy'n ysgrifennu gyda'r wybodaeth ychwanegol a drafodwyd gennym.

Y gwasanaeth addysg a'r cymhorthdal cludiant

Mae'r Comisiwn yn awyddus i sicrhau ein bod yn cynnig y profiad addysgol gorau i bob grŵp ysgol a grŵp ieuenctid sy'n ymgysylltu â'r Cynulliad. Rhan o'n hymateb i'r ymgynghoriad diweddar ar ymgysylltu â phobl ifanc oedd sicrhau bod ein cefnogaeth yn denu cynulleidfaoedd ehangach o bobl ifanc, nid drwy ysgolion yn unig. Bydd y gwaith hwn, ynghyd ag awgrym diddorol y Pwyllgor y dylem ymestyn y cymhorthdal cludiant i gynnwys dulliau cludiant cyhoeddus eraill, fel trenau, bellach yn rhan o adolygiad ehangach ar gymhorthdal y penderfynwyd ei gynnal cyn diwedd y flwyddyn. Er ein bod yn hyderus bod y cymhorthdal presennol yn cefnogi ysgolion, bydd ei adolygu, gan ystyried y dyheadau ymgysylltu ieuenctid ehangach, yn ein helpu i nodi newidiadau a all gefnogi ysgolion a chyflawni ein blaenoriaethau a'n nodau yn well.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 2089 8233

E-bost/Email: Claire.Clancy@cymru.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh



Gall yr Aelodau ddod o hyd i fanylion y trefniadau presennol yn y canllaw sydd ynghlwm (Cymraeg a Saesneg). Hoffwn nodi hefyd bod y linc ar y fewnryd <http://aelodau/services/communications.htm> yn rhoi rhagor o wybodaeth am ymweliadau addysg ac ymweliadau allgymorth yn ardaloedd yr Aelodau.

Cynaliadwyedd a chyhoeddi adroddiad yr Ymddiriedolaeth Garbon

Rwy'n falch o nodi y gallwn, yn wir, rannu'r wybodaeth sydd yn adroddiad yr Ymddiriedolaeth Garbon. Rydym yn gwneud trefniadau i'r crynodeb gweithredol, gan gynnwys y Map Llwybr Lleihau Carbon, gael ei gyhoeddi ar ein tudalennau Cynaliadwyedd ar y we, ynghyd â manylion cyswllt, pe bai rhywun am gael rhagor o wybodaeth. Cyfeiriad y wefan yw: http://www.cynulliadcymru.org/en/abthome/about_us-commission_assembly_administration/sustainability/Pages/sustainability.aspx.

Yn y cyfamser, rwyf wedi atodi'r crynodeb gweithredol er hwylustod.

Yr Ystâd

Hefyd, gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am yr ystâd. Y landlord ar gyfer Tŷ Hywel yw cwmni corfforedig yn yr Ynysoedd Virgin Prydeinig o'r enw Broader Company Ltd. Mae ein hymwneud â'r cwmni o ddydd i ddydd, a thalu rhent, yn digwydd drwy asiant rheoli a benodwyd ganddo, sef CBRE Ltd o Fryste, a benodwyd ym mis Mawrth 2014.

Byddwn yn parhau i archwilio pob cyfle i brynu Tŷ Hywel, gan gynnwys y llwybrau y gallai cynyddu pwerau datganoledig a newid cyfansoddiadol eu hagog.

Yr Arfer Gorau mewn Prosesau Cyllidebol

O ran y mater ehangach sy'n ymwneud â phrosesau cyllidebol, mae'r Comisiwn yn croesawu adroddiad y Pwyllgor Cyllid, yr Arfer Gorau mewn Prosesau Cyllidebol, sy'n cyd-fynd yn dda â'n gwaith o sicrhau bod y Cynulliad yn gwbl barod i ymdrin â'i bwerau a'i gyfrifoldebau newydd.



Mae'r maes hwn eisoes yn rhan o'n gwaith cynllunio ar gyfer y Pumed Cynulliad, yn ogystal â'n gwaith ar gynllunio capasiti, er mwyn sicrhau y gallwn ddarparu'r holl gefnogaeth angenrheidiol ar gyfer y rhaglen ddeddfwriaethol dros yr amser sy'n weddill o'r Pedwerydd Cynulliad. Mae'r materion hyn yn cael sylw gan fy Mwrdd Rheoli a'm Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau, yn ogystal â chan y Comisiwn ei hun. Byddwn yn parhau i fonitro gwaith y Pwyllgor yn hyn o beth ac yn ystyried eich casgliadau wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Mae croeso i chi roi gwybod i mi unrhyw bryd os byddwch angen rhagor o wybodaeth.

Yn gywir

Claire Clancy

**Prif Weithredwr a Chlerc/Chief Executive and Clerk
Cynulliad Cenedlaethol Cymru/National Assembly for Wales**

Cc Y Fonesig Rosemary Butler AC, Angela Burns AC, Nicola Callow

**Darganfod
Dadlau
Dewis**

—
**Discover
Debate
Decide**

Canllaw Ymweliad
—
Visit Guide



Beth yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cynnwys 60 o Aelodau Cynulliad o bob rhan o Gymru. Maen nhw'n cael eu hethol gan bobl Cymru i'w cynrychioli nhw a'u cymunedau, i wneud cyfreithiau ar gyfer Cymru, ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith yn iawn.

What is the National Assembly for Wales?


The National Assembly for Wales is made up of 60 Assembly Members from across Wales. They are elected by the people of Wales to represent them and their communities, make laws for Wales and to ensure the Welsh Government is doing its job properly.

Croeso

Welcome

Diolch am archebu ymweliad ar gyfer eich grŵp; rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi. Mae'r Gwasanaeth Addysg yn cynnig gwahanol fathau o ymweliadau grŵp. Ystyriwch yn ofalus sut fath o ymweliad rydych chi wedi ei archebu gan ddarllen yr holl wybodaeth berthnasol. Bydd y wybodaeth hon yn egluro'r hyn y dylech ei wneud cyn eich ymweliad.

Thank you for booking a visit for your group; we look forward to working with you. The Education Service offers various options for group visits. Please check carefully which kind of visit you have booked and read all relevant information. This information will tell you what you need to do before your visit.



Eich Ymweliad

Your Visit

Bydd eich ymweliad yn dechrau yn Siambr Hywel, sef y siambr drafod ar gyfer pobl ifanc yn Nhŷ Hywel, ac yn gorffen yn y Senedd. Mae pob ymweliad yn cael ei drefnu'n ofalus felly mae'n bwysig iawn eich bod yn cyrraedd yn brydlon er mwyn i ni fedru cyflwyno'r rhaglen lawn i chi. Gofalwch eich bod yn caniatáu amser ychwanegol i fynd drwy'r system ddiogelwch.

Your visit will begin in Siambr Hywel, the Assembly's youth debating chamber in Tŷ Hywel, and finish at the Senedd. Each visit is structured and it's really important that you arrive on time so we have time for the full educational programme. Please allow some extra time for going through security.



Cadwch mewn cysylltiad


Wrth i chi archebu'ch ymweliad, dylech fod wedi cael gwybodaeth am uchafswm y disgyblion y gallwch eu cynnwys yn eich grŵp. Os yw nifer y disgyblion yn newid yn sylweddol ar ôl i chi drefnu'r ymweliad, a fydddech cystal â rhoi gwybod i'r Tîm Archebu cyn gynted â phosibl drwy ffonio 0845 010 5500.

Gofynnwn i chi hefyd roi gwybod i'r Tîm Archebu os bydd oedi sylweddol yn ystod eich siwrnai.

Keep in touch

When you booked your visit, you should have been given information on the maximum group sizes we are able to accommodate. If there is a significant change in the number of pupils you will be bringing, please let the Booking Team know as soon as you can on 0845 010 5500.

We also ask that you let the Booking Team know if there's a substantial delay to your journey.





Cymhorthdal Teithio

Travel Subsidy

Mae gan ysgolion sydd y tu allan i gylch o 10 milltir o Fae Caerdydd yr hawl i gael cymhorthdal teithio o £1 y filltir am un daith y flwyddyn mewn bws yn ôl ac ymlaen o'r Cynulliad Cenedlaethol. Nodir swm y cymhorthdal teithio y mae gan eich ysgol chi hawl i wneud cais amdano ar eich ffurflen archebu.

Schools outside a 10-mile radius of Cardiff Bay are entitled to receive £1 per mile travel subsidy, for one coach per year, for a return journey to the National Assembly. The travel subsidy your school is entitled to is shown on your booking form.





Tudalen y pecyn 16



Cymryd Gofal

Yn ystod eich ymweliad, chi fydd yn gyfrifol am eich myfyrwyr; gofalu fod y gymhareb rhwng athrawon a disgyblion yn cydymffurfio â chanllawiau'r awdurdod lleol.

Take Care

During the visit, you will be responsible for your students; please make sure that the teacher to pupil ratio complies with local authority guidelines.

Bwyd

Os ydych wedi trefnu lle i'ch disgyblion fwyta'u pecynnau bwyd, bydd y lle ar gael i chi ar ddiwedd eich ymweliad. Sylwch na fydd modd prynu bwyd na diod yn ystod eich ymweliad.

Food

If you have booked the lunch area for your pupils to eat their packed lunches, this will be available for you at the end of your visit. Please note that you will not be able to buy any food or drinks during the visit.



Tudalen y pecyn 18

Atyniadau Eraill

Other Attractions

Siop y Cynulliad

Mae siop yn y Senedd sy'n arddangos doniau o Gymru ac sy'n rhoi cyfle i brynu cofroddion ac anrhegion.

Assembly Shop


There is a shop in the Senedd which offers a showcase of Welsh talent and an opportunity to purchase souvenirs and gifts.

Y Pierhead

Mae'r Pierhead ar agor fel canolfan ymwelwyr a digwyddiadau sy'n cyd-fynd â gwaith y Cynulliad, ac sydd hefyd yn cynnwys arddangosfeydd sy'n adrodd hanes yr adeilad eiconig hwn, rhai ohonynt yn rhyngweithiol. Mae'n bosibl y byddwch am fynd â'ch myfyrwyr i weld y Pierhead tra byddwch ym Mae Caerdydd. Mae taflenni gweithgaredd ar gael yn y dderbynfa.

The Pierhead

The Pierhead is open as a visitor centre and events venue that complements the work of the Assembly. It also contains displays and exhibitions, some of which are interactive, that tell the story of this iconic building. You may like to visit the Pierhead with your students while you are in Cardiff Bay. Activity sheets are available at reception.





Tudalen y pecyn 20

Cyn eich Ymweliad


Before your Visit

Ar ôl i chi archebu, byddwch yn cael e-bost cadarnhad. Bydd yr e-bost yn cynnwys ffurflen archebu a dolenni i'r ffurflen cymhorthdal teithio a'r ffurflen asesiad risg.

Bydd angen i chi gwblhau'r ffurfenni hyn a'u dychwelyd atom drwy ein cyfeiriad rhabost cyn eich ymweliad.

After you made your booking, you will receive a confirmation email. This email contains a booking form and links to the subsidised travel and risk assessment forms.

Send your completed forms to our freepost address prior to your visit.










Aseiad Risg

Risk Assessment

Rydym wedi paratoi Aseiad Risg ar gyfer ymweliadau addysgol, ond gofynnir i chi gynnal eich Aseiad Risg eich hunan ymlaen llaw. Dylech ystyried y risgiau nad yw'r Aseiad Risg cyffredinol yn delio â nhw, fel y risgiau sy'n gysylltiedig â theithio o'r bws i adeiladau'r Cynulliad, ac ati.

We have carried out a Risk Assessment for educational visits but we also ask that you complete your own Risk Assessment before your visit. This should take into account risks not covered by our assessment, such as risks associated with travelling from the bus to the Assembly building etc.



Asesiad Risg

Ar ôl cwblhau'r Asesiad Risg, dylech ei anfon atom ni drwy'r post.

Risk Assessment

Please send us your completed Risk Assessment in the post.



Tudalen y pecyn 26

Cyfeiriad rhadbost addysg

Education freepost address

**Rhadbost SWC 3358
Gwasanaeth Addysg
Cyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1GY**

**Freepost SWC 3358
Education Service
Communications
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1GY**




Dysgu a Meithrin Sgiliau

Learning and Skills

Mae ein rhaglen addysg yn helpu disgyblion a myfyrwyr i feithrin eu sgiliau sylfaenol a'u dealltwriaeth o wleidyddiaeth. Yn ddibynnol ar eu hoed a'u gallu, gallwn roi gwybodaeth am y meysydd allweddol a ganlyn drwy ein rhaglenni a'n hadnoddau:

Our educational programmes help pupils and students to develop their political literacy and key skills. Depending on age and ability, the following key areas are covered by all our programmes and resources:



- y gwahaniaeth rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru
 - pwerau'r Cynulliad
 - pwy sy'n eich cynrychioli chi?
 - swydd Aelod Cynulliad
 - sut y caiff Aelodau'r Cynulliad eu dewis?
 - beth sy'n digwydd pan fydd y 60 Aelod Cynulliad yn cyfarfod yn y Senedd yng Nghaerdydd?
 - sut i gysylltu ag Aelodau'r Cynulliad
 - cyfansoddiad gwleidyddol y Cynulliad
 - lliwiau'r pleidiau gwleidyddol
-
- the difference between the National Assembly for Wales and the Welsh Government
 - the powers of the Assembly
 - who represents you?
 - the job of an Assembly Member
 - how are Assembly Members chosen?
 - what happens when all 60 Members meet at the Senedd in Cardiff?
 - how to contact Assembly Members
 - the political make-up of the Assembly
 - political party colours

Gwybodaeth

Information

Tîm Gwybodaeth ac Archebu

0845 010 5500

E-bost

gwybodaeth@cymru.gov.uk

archebu@cymru.gov.uk

Information and Booking Team

0845 010 5500

Email

assembly.info@wales.gov.uk

assembly.bookings@wales.gov.uk





Tudalen y pecyn 32

T 0845 010 5500



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales



Tudalen y pwy 33



Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

7 Hydref 2014

Annwyl Jocelyn

Mae'n bleser gennyf anfon Adroddiad diweddaraf Comisiwn y Cynulliad ar Berfformiad Corfforaethol atoch, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2014.

Mae'n ddrwg gennyf nad oedd yr adroddiad diweddaraf hwn ar gael i'r Pwyllgor mewn pryd ar gyfer eich sesiwn graffu ar gyllideb ddrafft y Comisiwn yr wythnos ddiwethaf. Byddwn yn ychwanegu'r wybodaeth hon at ddogfen derfynol y gyllideb pan fyddwn yn gosod y gyllideb ym mis Tachwedd. Flwyddyn nesaf, byddaf yn sicrhau eich bod yn cael yr adroddiad mewn pryd i'w ddefnyddio fel rhan o'ch gwaith ar y gyllideb ddrafft.

Mae'r dangosyddion a'r targedau wedi'u hadolygu yn dilyn blwyddyn gyfan o adrodd ac mae rhai newidiadau wedi'u gwneud pan fo'r Comisiwn wedi nodi mesurau mwy ystyrlon. Yn fras, rydym wedi:

- cyflwyno targedau mwy heriol o ran dosbarthu papurau pwyllgor a chyhoeddi Cofnod y Trafodion y pwyllgorau;
- cyflwyno mesur newydd mewn perthynas â chyhoeddi Rhestrau wedi'u Didoli ar gyfer Biliau ar ôl Cyfnod 3 (i ategu'r graff o'r amserlen ddeddfwriaethol, a symudwyd i'r Atodlen gyda'r graffiau eraill);

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn • Tel: 029 2089 8233

Ffacs • Fax: 029 2089 8117

E-bost • Email: Claire.Clancy@cymru.gov.uk

Ysgrifenyddiaeth Comisiwn y Cynulliad/Assembly Commission Secretariat



- cynnwys manylion am bobl sy'n ailymgymryd â gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus, er mwyn cynnig darlun gwell o'r ffordd y mae Aelodau a'u staff cymorth yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath;
- cynnwys rhagor o fanylion am rwydweithio yn y cyfryngau cymdeithasol, fel y ffigurau ar gyfer cyfanswm y bobl sy'n ymgysylltu â'r Cynulliad drwy Facebook, Twitter a Senedd.tv, yn ogystal ag ychwanegu nifer y munudau y mae pobl yn gwyllo ein cynnwys ar YouTube; a
- chyflwyno mesurau newydd ar gyfer darpariaeth a boddhad yng nghyswllt TGCh.

Wrth weithredu'r newidiadau hyn, rydym wedi cadw cais y Pwyllgor Cyllid mewn cof, sef y dylem allu dangos tueddiadau perfformiad dros amser.

Mae llawer o'r dangosyddion yn nodi bod pethau'n gwella o gymharu â'r un cyfnod y llynedd, a phan nad yw hynny'n digwydd, mae'r Comisiwn yn cymryd camau i sicrhau gwelliannau.

Rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth.

Yn gywir

Claire Clancy
Prif Weithredwr a Chlerc/Chief Executive and Clerk
Cynulliad Cenedlaethol Cymru/National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

Adroddiad Comisiwn y Cynulliad ar Berfformiad Corfforaethol

Ebrill – Mehefin 2014

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae crynodeb o'r ddogfen hon ar gael mewn ieithoedd ar wahân i Saesneg a Chymraeg ar gais.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

**Adroddiad Comisiwn y Cynulliad ar
Berfformiad Corfforaethol**

Ebrill – Mehefin 2014

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cyflwyniad

Yr enw ar gorff corfforaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw Comisiwn y Cynulliad. Mae'r Comisiwn yn gwasanaethu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gynorthwyo â'r gwaith o'i wneud yn sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar ac yn ddeddfwrfa sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd; a phedwar Aelod Cynulliad wedi'u henwebu gan bob un o'r pedair plaid wleidyddol sy'n cael eu cynrychioli yn y Cynulliad: Peter Black AC, Angela Burns AC, Sandy Mewies AC, a Rhodri Glyn Thomas AC. Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am gyfeiriad strategol gwasanaethau'r Cynulliad ac mae'n atebol i'r Cynulliad. Mae'r gwaith o reoli a chyflawni o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i **Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**.

Mae **Strategaeth Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2011-16** yn amlinellu ein nodau ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad, sef: darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf; ymgysylltu â phobl Cymru; hyrwyddo Cymru; a defnyddio adnoddau'n ddoeth.

Er mwyn cefnogi nodau strategol y Comisiwn, mae gennym bum maes blaenoriaeth ar gyfer newid, arloesi a buddsoddi ar gyfer y Cynulliad hwn. Mae'r rhain wedi'u nodi yn **Strategaeth Comisiwn y Cynulliad 2014-16** - cynllun corfforaethol diwygiedig a ddatblygwyd gennym i roi rhagor o eglurder a chyfeiriad i staff am ein strategaeth, blaenoriaethau ac amrywiol elfennau o lywodraethu.

Adrodd am berfformiad

Dyma'r adroddiad cyntaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2014-15. Rydym wedi adolygu nifer o ddangosyddion ac wedi gwneud newidiadau i wella eglurder ein gwaith adrodd am berfformiad. Dangosir y newidiadau hyn yn y testun ar gyfer y dangosyddion perthnasol. Rydym hefyd wedi gwneud rhai gwelliannau i'r arolwg boddhad blynyddol o Aelodau Cynulliad a'u staff. Eto, dangosir y newidiadau yn y testun ar gyfer y dangosyddion perthnasol.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am berfformiad corfforaethol y Comisiwn yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mehefin 2014, fel a ganlyn:

- mae crynodeb ar ffurf goleuadau traffig yn nodi'r perfformiad cyffredinol o dan bob un o'n nodau strategol;
- mae dadansoddiad manylach yn edrych ar y dangosyddion unigol sy'n rhan o'r crynodeb;
- caiff cymaryddion priodol, o ystod o ffynonellau, eu darparu pan fo hynny'n bosibl.

Perfformiad o ran darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf

Gellir gweld bod perfformiad wedi gwella neu aros ar yr un lefel dros y cyfnod hwn o ran prydlondeb y gwasanaethau a ddarparwyd. Cynhaliwyd 100% o'r cyfarfodydd pwyllgor a'r cyfarfodydd llawn yn ystod y cyfnod heb amhariad. Dyma'r tro cyntaf i hynny ddigwydd ers inni ddechrau adrodd am ein dangosyddion perfformiad allweddol.

Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr Aelodau sy'n ymgymryd â gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus o gymharu â'r un cyfnod y llynedd, ac mae nifer staff y Comisiwn sy'n dysgu Cymraeg wedi parhau ar yr un lefel.

Drwy ddefnyddio dull gweithredu mwy integredig o ran cynorthwyo ein pwyllgorau, rydym wedi gallu gwella ein gwasanaeth i Aelodau drwy allu teilwra ein gwaith i anghenion Aelodau unigol a darparu mwy o gymorth iddynt weithio yn eu dewis iaith - mae'r cynnydd yn sgôr boddhad yr Aelodau ar gyfer gweithio yn eu dewis iaith, o 6.20 yn 2013 i 8.90 yn 2014, yn dangos hynny'n glir.

Perfformiad o ran ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru

Mae nifer y bobl sy'n ymweld â'r Senedd a'r Pierhead yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi parhau i gynyddu yn y cyfnod presennol, gyda chynnydd o tua 40% o gymharu â'r un cyfnod y llynedd yn nifer yr ymwelwyr sy'n mynd ar deithiau tywys. Mae ymgysylltu drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn parhau i gynyddu, gyda nifer y dilynwyr ar Twitter yn tyfu a chynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n gwyllo cynnwys y Cynulliad ar YouTube.

Rydym wedi adeiladu ar lansiad llwyddiannus meddalwedd cyfieithu peirianyddol Microsoft drwy hyrwyddo ac arddangos y feddalwedd i randdeiliaid allanol a'r cyfryngau drwy gydol y cyfnod adrodd.

Rydym wedi cyflwyno dull gweithredu gwell ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc. Rydym hefyd wedi cyhoeddi gwybodaeth am yr amryw ffyrdd y gall pobl ifanc gymryd rhan yng ngwaith y Cynulliad, gan gynnwys drwy <http://www.dygynulliad.org> a [@dygynulliad](#) #dygynulliad ac wedi datblygu dulliau newydd o gasglu tystiolaeth ar gyfer ymchwiliadau pwyllgor.

Perfformiad o ran defnyddio ein hadnoddau yn ddoeth

Mae ein perfformiad cyllidebol ar gyfer y cyfnod yn dangos ein bod ar y trywydd iawn i sicrhau y bydd ein tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn o fewn y targed o 1% a'n bod yn rhagori ar ein targed o £500,000 o ran Gwerth am Arian. Gan ein bod datblygu cynllun cynnal a chadw a buddsoddi 10 mlynedd ar gyfer ein hystâd, rydym wedi gallu rhagweld a dyrannu gwariant yn y maes hwn yn fwy cywir nag a wnaed yn y gorffennol. Mae ein ffigurau absenoldeb oherwydd salwch wedi parhau i wella, a chyrhaeddwyd ein targed o <3% ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Mehefin 2014 (2.45% o gymharu â 3.35% ym mis Mehefin 2013).

Mae ein defnydd o ynni yn parhau i ostwng, gyda gostyngiad o 36% ym mis Mehefin o gymharu â blwyddyn sylfaen 2008-09. Rydym ar y trywydd iawn i gyflawni ein targedau o ran anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi. Yn y cyfnod adrodd cafwyd gostyngiad o 0.88 o dunelli (o gymharu â 2.9 o dunelli yn yr un cyfnod y llynedd).

Mynediad at wybodaeth

Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi **Adroddiad a Chyfrifon Blynnyddol**, sy'n rhoi trosolwg o berfformiad yn flynyddol, gan gysylltu perfformiad â'r arian a wariwn ar ddarparu gwasanaethau i'r Cynulliad. Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi ystod o wybodaeth arall am ei gyllideb flynyddol a'i bolisiau sefydliadol. Mae'r wybodaeth hon ar gael **yma**.
















Mae'r Comisiwn yn fodlon darparu rhagor o wybodaeth os hoffech ddysgu rhagor am ein gwaith:

Gallwch gysylltu â ni **yma**.

Ceir canllawiau ar fynediad at wybodaeth **yma**.















Mesurau Perfformiad Corfforaethol - Cyflawniad yn erbyn Nodau Strategol

Crynodeb o'r wybodaeth fanylach sy'n dilyn am y dangosyddion perfformiad allweddol (gweler y grwpiau o ddangosyddion perfformiad allweddol cyfatebol)

Rhif Grŵp KPI	Darparu Cymorth Seneddol o'r Radd Flaenaf	Ebrill - Mehefin 2013	Ebrill - Mehefin 2014	Sylwadau - manylion ar dudalen 6-8
1	Bodddhad Aelodau	 oren	 gwyrdd	Dim newid i'r sgorau ar gyfer cyfarfodydd llawn a chyfarfodydd pwyllgor; cynyddodd y sgôr ar gyfer gweithio yn eu dewis iaith o 6.2 yn 2013 i 8.9 yn 2014
2	Prydlondeb a chyflenwi gwasanaethau	 gwyrdd	 gwyrdd	Perfformiad sy'n gyson uchel o ran prydlondeb papurau pwyllgor, cyhoeddi Cofnod y Trafodion ac ymateb i ymholiadau'r Gwasanaeth Ymchwil. Dim amhariad i fusnes yn ystod y cyfnod
3	Datblygiad Proffesiynol	 gwyrdd	 gwyrdd	Nifer y dysgwyr Cymraeg yr un fath; parhaodd nifer y rhai sy'n dilyn datblygiad proffesiynol parhaus i gynyddu
4	Hynt blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol	 gwyrdd	 gwyrdd	Cynnydd tuag at 'gymorth o'r radd flaenaf i bwyllgorau' drwy integreiddio dulliau gweithredu, datblygu cynlluniau i wella prosesau busnes sy'n defnyddio TGCh, cynnydd o ran gwella gwasanaethau dwyieithog
Rhif Grŵp KPI	Ymgysylltu â Phobl Cymru a Hyrwyddo Cymru	Ebrill - Mehefin 2013	Ebrill - Mehefin 2014	Sylwadau - manylion ar dudalen 8-11
5	Bodddhad Aelodau	-	 oren	Sgôr o 6.7. Mae hwn yn fesur newydd ac nid oes cymaryddion o'r arolygon blaenorol
6	Ymgysylltu â'r Cynulliad	 gwyrdd	 gwyrdd	Parhaodd nifer yr ymwelwyr i godi ac mae bodddhad ymwelwyr yn parhau'n uchel
7	Proffil Allanol y Cynulliad	 gwyrdd	 gwyrdd	Rhyngweithio yn y cyfryngau cymdeithasol yn parhau i gynyddu'n raddol, a lefelau ymgysylltu ag ysgolion ac ymgysylltu rhyngwladol yr un fath
8	Hynt blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol (gwella ymgysylltu)	 gwyrdd	 gwyrdd	Datblygwyd Siarter Plant a Phobl Ifanc, mwy o ryngweithio yn y cyfryngau cymdeithasol, hyrwyddo'r system cyfieithu peirianyddol, dulliau newydd o gasglu tystiolaeth

Mesurau Perfformiad Corfforaethol - Cyflawniad yn erbyn Nodau Strategol

Crynodeb o'r wybodaeth fanylach sy'n dilyn am y dangosyddion perfformiad allweddol (gweler y grwpiau o d dangosyddion perfformiad allweddol cyfatebol)

Rhif Grŵp KPI	Defnyddio Adnoddau'n Ddoeth	Ebrill - Mehefin 2013	Ebrill - Mehefin 2014	Sylwadau - manylion ar dudalen 11-14
9	Bodddhad Aelodau	 gwyrdd	 gwyrdd	Sgorau wedi gwella ym mhob categori gyda chynnydd sylweddol yn y sgorau TGCh
10	Perfformiad Cyllidebol	 gwyrdd	 gwyrdd	Perfformiad ar y trywydd iawn i fodloni'r targedau, sef tanwariant o lai na 1% ac arbedion gwerth am arian o £500,000
11	Staff	 oren	 gwyrdd	Ffigurau absenoldeb salwch lawer yn is na'r targed a chyfartaledd y sector; nifer fawr o adolygiadau perfformiad wedi'u cwblhau'n brydlon
12	Gwasanaeth Cwsmeriaid TGCh	 oren	 gwyrdd	Perfformiad da o ran cyflawni targedau'r cytundeb lefel gwasanaeth a sgorau uchel o ran bodddhad cwsmeriaid (Aelodau a staff)
13	Llywodraethu	 gwyrdd	 gwyrdd	Taliadau i Aelodau a chyflenwyr ymhell o fewn y gyfradd darged. Roedd 3 allan o 13 o geisiadau rhyddid gwybodaeth yn hwyrach na'r dyddiad targed gan fod eithriadau'n gymwys ac roedd angen ymgynghori'n eang â'r rhai yr effeithiwyd arnynt, aed i'r afael â'r holl argymhellion archwilio
14	Cynaliadwyedd	 oren	 gwyrdd	Defnydd o ynni ac anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi yn parhau i ostwng
15	Hynt blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol (gwneud y gorau o ystâd y Cynulliad)	 gwyrdd	 gwyrdd	Cytunwyd ar raglen buddsoddi a chynnal a chadw 10 mlynedd sydd bellach ar waith

Allwedd



COCH: Mae materion allweddol yn effeithio ar y gallu i gyflawni amcanion busnes. I sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni, mae angen newidiadau o ran amser, costau a/neu gwmpas.



OREN: Mae materion neu risgiau y mae angen mynd i'r afael â nhw. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd modd cyflawni'n llwyddiannus heb effeithio rhyw lawer ar y gyllideb, safon gwasanaethau na dyddiadau targed.



GWYRDD: Mae'r gwaith yn cyrraedd y safonau y cytunwyd arnynt neu'n datblygu'n ôl y disgwyl. Mae pob risg sy'n hysbys i'r Comisiwn yn cael ei rheoli.

Dangosyddion perfformiad corfforaethol

Nod : Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf

	Cymharydd	Targed	Ebr-Meh 2013-14 ⁽¹⁾	Ebr-Meh 2014-15 ⁽¹⁾		Naratif
--	-----------	--------	--------------------------------	--------------------------------	--	---------

Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer boddhad yr Aelodau, gan gynnwys:

1	Cyfarfodydd Llawn	7.70 yn 2013	8.00	7.70	7.70	⇒	Daw'r canlyniadau o arolwg Aelodau'r Cynulliad yn 2014. Mae'r sgorau'n dangos bod pethau wedi gwella, neu na fu newid, ers y sgorau lled gyfaradwy yn arolwg 2013.
	Cyfarfodydd Pwyllgor	7.90 yn 2013	8.00	7.90	7.90	⇒	
	Gweithio drwy gyfrwng eu dewis iaith	6.20 yn 2013	8.00	6.20	8.90	↑	

Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer prydlondeb a chyflenwi gwasanaethau, gan gynnwys:

Tudalen y pecyn 43 2	% y papurau pwyllgor a gyhoeddwyd o fewn terfynau amser y cytunwyd arnynt â phob pwyllgor	amherthnasol	100%	amherthnasol	98.81%	-	Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill-Mehefin. Nid oes cymharydd gan fod y mesur wedi newid i ddangos y terfynau amser y cytunwyd arnynt â phob pwyllgor yn hytrach na'r terfyn amser yn y Rheolau Sefydlog, sef llai na 2 ddiwrnod.
	% yr ymholiadau i'r gwasanaeth ymchwil a atebwyd o fewn terfyn amser y cytunwyd arno	98% ar gyfartaledd yn 2013-14	100%	99.00%	98.10%	↓	Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill-Mehefin.
	% Cofnod Trafodion y cyfarfod llawn a gyhoeddwyd o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno	100% ar gyfartaledd yn 2013-14	100%	100.00%	100.00%	⇒	Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill-Mehefin.
	Nifer y cyfarfodydd pwyllgor/cyfarfod llawn yr effeithiwyd arnynt oherwydd diffygion yng ngwasanaethau'r Comisiwn	12 allan o 306 (3.92%) yn 2013-14	Dim	6 allan o 86 (6.9%)	0 allan o 95 (0%)	↑	Cyfanswm Ebrill-Mehefin. Nid oedd unrhyw amhariad yn ystod y cyfnod hwn.
	% Cofnod Trafodion y pwyllgorau a gyhoeddwyd o fewn 5 diwrnod gwaith	amherthnasol	100%	amherthnasol	96.00%	-	Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill-Mehefin. Newidiwyd y targed o 14 diwrnod i 5 diwrnod felly nid oes cymharydd. Pan fethwyd â bwrw targedau, roedd hynny oherwydd llwyth gwaith uwch ac absenoldeb staff ym mis Mai a mis Mehefin.

5 | Nid yw'r cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin yn berthnasol i'r holl ddangosyddion, er enghraifft, ar gyfer arolwg boddhad yr Aelodau a phan fyddwn yn cymharu gwybodaeth â'r cyfnod llinell sylfaen.

Dangosyddion perfformiad corfforaethol

Nod : Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf

	Cymharydd	Targed	Ebr-Meh 2013-14 ⁽¹⁾	Ebr-Meh 2014-15 ⁽¹⁾		Naratif
--	-----------	--------	--------------------------------	--------------------------------	--	---------

Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer prydlondeb a chyflenwi gwasanaethau (parhau), gan gynnwys:

2	% y rhestrau wedi'u didoli ar gyfer trafodion Bil yng Nghyfnod 3 a gyhoeddwyd erbyn terfyn amser y Rheolau Sefydlog	amherthnasol	>2 ddiwrnod o drafod	100.00%	100.00%	⇒	Y cyfartaledd ar gyfer Ebrill-Mehefin. Gweler yr amser a dreuliwyd ar gamau pob darn o ddeddfwriaeth yn y graff yn yr atodiad.
----------	---	--------------	----------------------	---------	---------	---	--

Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer datblygiad proffesiynol, gan gynnwys:

Tudalen y pecyn 44	Nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg	34 (Mawrth 2014)	Cynyddu nifer y dysgwyr Cymraeg	31	34	↑	Fel ym mis Mehefin. Mae dangosydd newydd ar gyfer capasiti o ran siaradwyr Cymraeg yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r prosiect i wella gwasanaethau dwyieithog.
